**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Cyngor y Dyfodol a Thrawsnewid

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2017 am 9.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd E T Kirchner (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Evans | J A Hale | C A Holley |
| M B Lewis | S Pritchard | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sarah Caulkin | Interim Director of Resources |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Linda Phillips | Organisational Development Project Officer |
| Steve Rees | Pennaeth Adnoddau Dynol |
| Vicky Thomas | Sustainable Swansea Programme Manager |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, A H Stevens ac L J Tyler-Lloyd

---

## 15 Derbyn o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 16 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 22 Awst 2017 fel cofnod cywir.

## 17 Diweddariad am brosiect y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Darparodd y Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Prosiectau Datblygu Sefydliadol ddiweddariad am Brosiect y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.

Tynnwyd sylw at feysydd canlynol yr adroddiad: -

- Gofynion Rheoliadau Cydraddoldeb 2011 sy'n benodol i Gymru
- Cymorth a chyfraniad gan Dr Alison Parken ym Mhrifysgol Caerdydd
- Mae ysgolion, athrawon a staff cyflenwi/achlysurol wedi'u cynnwys yn yr ymchwil ddiweddaraf

- Sefyllfa gyffredinol y gweithlu cyfredol o ran rhywiau.
- Trosolwg o sut mae swyddi'r sefydliad yn cael eu categoreiddio ar hyn o bryd
- Trosolwg o ddata ysgolion
- Cymhariaeth rhwng cyflog cyfartalog cenedlaethol Cymru a Lloeg
- Canlyniadau ac argymhellion

Gofynnwyd cwestiynau i'r Swyddogion Cyflwyno a ymatebodd iddynt yn briodol. Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol: -

- Ffyrdd o gael/hyrwyddo mwy o fenywod mewn swyddi gradd uwch.
- Darparu gwell cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau.
- Cynnal proses recriwtio deg a chyfartal.
- Posibilrwydd a defnyddioldeb cymharu â gweithluoedd tebyg.
- Porth recriwtio i ddarparu mwy o ddata ar gyfer y dyfodol
- Achlysuron lle mae menywod yn gweithio mewn mwy nag un swydd rhan amser, a fyddai'n cyfateb i swydd amser llawn pan gânt eu cyfuno

Nodwyd y byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu ym mis Mawrth/Ebrill 2018.

Roedd y pwyllgor am ddiolch i'r swyddogion yn ogystal â Dr Parken o Brifysgol Caerdydd am eu cyfraniad a'u gwaith.

**Penderfynwyd:** -

1. Nodi cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf;
2. Y bydd y pwyllgor yn ystyried cyhoeddi'r data ar wefan Equal Pay
3. Darparu diweddariad pellach am Brosiect y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau i'r pwyllgor ym mis Mawrth/Ebrill 2018

**18 Y diweddaraf am gynnydd y cynllun gwaith.**

Darparodd Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy drosolwg cryno o'r gweithdy blaenorol a drefnwyd ynghylch yr Adolygiad Caffael. Byddai'r gweithdy hwn yn cael ei aildrefnu ar gyfer mis Ionawr 2018. Byddai amlinelliad o'r gweithdy'n cael ei ddosbarthu i'r pwyllgor.

Darparodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dro drosolwg o ffocws a dibenion y gweithdai yn ogystal â'r diweddaraf am yr adolygiadau a'r meysydd Cynllun Gwaith 100 diwrnod canlynol: -

- Sefydlu uned cyflwyno a datblygu polisi corfforaethol
- Cytuno ar raglen cyflwyno caeau 3G ddrafft
- Dechrau diddymu pob contract heb oriau
- Dechrau comisiynu gwaith ar y cerdyn/ap dinesydd
- Gweithio ystwyth yn y dyfodol
- Gweithio tuag at weithredu gweddarlledu
- Gweithio tuag at weithredu e-bleidleisio
- Masnacheiddio'r Plasty yn y dyfodol

- Polisïau/prosesau caffael y dyfodol.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariad am y Cynllun Gwaith.

## 19 Amserlen waith hyd at fis Mawrth 2018.

Cynigiwyd bod yr eitemau canlynol yn cael eu trefnu ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor sydd ar ddod: -

- Llunio Cynllun Gwaith ar gyfer Rhaglen Waith Ddrafft yr Uned Cyflwyno a Datblygu Polisi Corfforaethol.
- Diweddariad am y rhaglen cyflwyno caeau 3G ddrafft cyn mis Mawrth 2018.
- Diweddariad (gyda pheth cymhariaeth ariannol) am ddiddymu pob contract heb oriau cyn mis Mawrth 2018.
- Adroddiad am y cerdyn/ap dinesydd cyn mis Mawrth 2018.
- Diweddariad am fasnacheiddio'r Plasty cyn mis Mawrth 2018.
- Trefnu gweithdy ar bolisïau/prosesau caffael y dyfodol ar gyfer mis Ionawr 2018.
- Diweddariad am Gynllun Cymunedol Creadigol.
- Diweddariad am ysgolion a hygyrchedd/argaeledd gweithgareddau cymunedol.
- Pwyllgor i drafod Abertawe Gynaliadwy i edrych ar y meysydd ffocws.
- Cyfarwyddwr Pobl i fynd i'r pwyllgor i drafod trais domestig a meysydd ffocws ar gyfer y pwyllgor.

**Penderfynwyd** y byddai'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dro yn llunio amserlen waith hyd at fis Mawrth 2018.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.20 am

**Cadeirydd**